## 2A.1 Taflen ynglŷn â Deddf Naturiol

Pan fydd plentyn yn dweud “dydi o ddim yn deg”, neu pan fyddwch chi neu fi’n gwylio’r ffilm *Hotel Rwanda* neu *Schindlers’ List* ac yn meddwl “drygioni absoliwt yw’r hil-laddiad yma”, rydym yn dangos tystiolaeth y gall fod y fath beth â “deddf naturiol”: byd-olwg y mae pawb ohonom yn ei rhannu trwy ein natur ynddo’i hun, sy’n sail i’n barn ynghylch da a drwg.

Dyma sut yr esboniodd C.S. Lewis y peth:

> *“Yn ôl y farn grefyddol, mae’r hyn sydd y tu ôl i’r bydysawd yn debycach i feddwl nag unrhyw beth arall a adwaenwn … mae’n ymwybodol, ac mae ganddo amcanion, ac mae’n well ganddo’r naill beth na’r llall. Ac ar sail y farn hon fe greodd y bydysawd, yn rhannol i ddibenion sy’n anhysbys inni, ond yn rhannol er mwyn creu creaduriaid tebyg iddo’i hun... a chanddynt feddyliau… Mae yna rywbeth sy’n cyfarwyddo’r bydysawd, ac sy’n ymddangos i mi ar ffurf deddf sy’n fy annog i wneud y peth iawn”. (Mere Christianity, tt. 16, 19, 33)*

Mae sawl nodwedd yn perthyn i ddamcaniaeth y ddeddf naturiol:

- **Deontolegol** gan ei bod yn cynhyrchu *rheolau* a *dyletswyddau*. A bod yn fanwl gywir, damcaniaeth *ddeontolegol* ydyw sy’n deillio o fydolwg *teleolegol,* y syniad Groegaidd fod diben (telos) i bopeth a bod diben bodau dynol yn neilltuol ac yn rhesymol.
- **Absoliwtaidd** gan fod y ddeddf naturiol yn absoliwt a digyfnewid, “creaduriaid deallus yn rhannu yn y ddeddf dragwyddol” (Tomos o Acwin). Ond, **dim ond** rheolau cynradd y ddeddf naturiol sydd yn ddigyfnewid, fel yr eglurir (nid y rheolau eilradd).
- **Normadol** gan fod y ddeddf naturiol yn creu normau neu werthoedd sydd yn gynhenid yn y drefn naturiol, a welir trwy ein rheswm.

Mae’r Ddeddf Naturiol yn rhagdybio bod bodau dynol, a hwythau wedi’u creu ar ddelw Duw, trwy eu natur eu hunain yn awyddus i wneud daioni ac osgoi drygioni ac felly bod pob bod dynol (credadun neu anghredadun) wrth gyflawni ei ddiben rhesymol, yn ceisio dibenion da.

© WJEC CBAC LTD

## Pedwar cysyniad Tomos o Acwin o ddeddf: diffinio da a drwg

*Yn namcaniaeth Tomos o Acwin am y ddeddf naturiol mae daioni'n gynhenid i'r ddeddf, fel y'i diffinnir gan amcan a deddf dragwyddol Duw. Mewn byd delfrydol byddai'r pedwar cysyniad o ddeddf yn cyd-fynd: byddai amcan Duw, a'n deddfau dynol ni, er enghraifft, yn cyd-fynd. Am drafodaeth eglur o'r pedwar cysyniad o ddeddf gan yr Athro Richard Jacobs, cliciwch* yma.

Mae Tomos yn dadlau fod diben neu amcan gweithred yn diffinio a ydyw'n dda ynteu'n ddrwg, ac y caiff y diben neu'r amcan hwn ei ddatgelu gan y ddeddf ddwyfol a'i gadarnhau gan y ddeddf naturiol.

> *"Mae rheswm a datguddiad yn cyfleu gorchmynion Duw, ac felly dylai bodau dynol gydymffurfio'u hewyllys â gorchmynion dwyfol y naill a'r llall" (Richard Regan, Introduction to Law, Morality, Politics xxi).*

Felly mae pob ewyllys sy'n gweithredu'n groes i reswm (hyd yn oed os yw'r rheswm yn gyfeiliornus) yn ddrwg, a gall rhai gweithredoedd ewyllys sy'n tarddu o reswm fod yn ddrwg os yw'r ewyllys yn gyfeiliornus, felly gall gweithred fod yn *ddrwg*:

- Os yw'r **nod** yn ddrwg (e.e. lladd bod dynol diniwed)
- Os rhwystrir **amcan cynhenid y weithred** (e.e. mae dweud celwydd yn rhwystro amcan cyfathrebu, mae amlgymharaeth yn rhwystro amcan atgenhedlu)
- Os gwneir **dewis gwirfoddol** sy'n torri'r ddeddf naturiol (mae Tomos yn gwahaniaethu rhwng gweithredoedd "gwirfoddol" ac "anwirfoddol". Mae gwahaniaeth rhwng dewis yn fwriadol gysgu gyda gwraig rhywun arall, a chysgu gyda hi yn y gred mai eich gwraig chi yw hi mewn gwirionedd!)
- Gallwn gael ein **harwain ar gyfeiliorn** gan deimladau, arferion, neu farn wael.

Mae gweithredoedd drwg felly'n *torri'r ddeddf*, ac i Tomos o Acwin mae pedwar ystyr i ddeddf:

- **Y Ddeddf Dragwyddol** yw cynllun Duw ar gyfer y cread.
- **Y Ddeddf Ddwyfol** a ddatguddir yn y Beibl, ac mae'n newid rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd.
- **Y Ddeddf Naturiol,** y gellir ei darganfod trwy ddefnyddio rheswm cywir, gan sylwi ar ganlyniadau ac amcanion naturiol. Mae'n cynnwys rheolau cynradd ac eilradd.

© WJEC CBAC LTD 

- **Y Ddeddf Ddynol** a gaiff ei phasio gan lywodraeth (mae Tomos yn defnyddio'r gair "cyhoeddi") ac sy'n cyfateb i'r ddeddf naturiol, fel bod "deddf ddynol sydd yn ymwahanu mewn unrhyw ffordd oddi wrth y ddeddf naturiol yn ystumiad o'r ddeddf ac ni fydd mwyach yn ddeddf".

Dylai gweithredoedd iawn gydymffurfio â phob un o bedwar ystyr deddf, ond yn y pen draw ein rheswm ni sy'n cadarnhau eto a ydyw deddf yn "gyfiawn" ac yn "dda".

## Rhesymeg y Ddeddf Naturiol

1. Rydym yn byw mewn byd bwriadus, byd lle mae gan greaduriaid rhesymol eu hamcanion. Mae'r byd-olwg Groegaidd hwn yn un teleolegol (telos = diben neu bwrpas).
2. Cynlluniwyd ni fel hyn gan Dduw, i arfer rheswm wrth gyrchu nod neu ddiben. Mae'r ddeddf dragwyddol yn bodoli yn Nuw, sydd yn arfer ei reswm wrth gynllunio ein byd.
3. Mae pawb yn rhannu yn y ddeddf dragwyddol trwy'r ddeddf naturiol sydd wedi'i hysgrifennu yn ein calonnau trwy synderesis (pwynt 4).
4. O ran natur mae arnom eisiau "gwneud daioni ac osgoi drygioni". Dyma egwyddor synderesis, tybiaeth allweddol.
5. Mae rhyddid gan fodau dynol. Felly, cydymffurfiad ein rhyddid â rheswm yw'r ddeddf naturiol. Y ddeddf naturiol yw tuedd naturiol bodau dynol i gyflawni eu nod priodol trwy reswm ac ewyllys rhydd.
6. Bod gyda Duw yw ein nod terfynol. Rhan o'r nod hwn yw blodeuo (y nod yw hapusrwydd, blodeuo neu Eudaimonia) trwy berffeithio'n hunain: mae hyn yn arwain at foddhad dynol.
7. Pan fydd rhywun yn darganfod trwy reswm beth yw diben (neu achos terfynol) byw, bydd yn darganfod beth yw ei nod naturiol.
8. Gallwn weld beth yw'r pum daioni sylfaenol drwy edrych ar dueddiadau dynol naturiol, ac wedyn drwy ddilyn ein rheswm a'n hewyllys.
9. Mae pum daioni sylfaenol: Cadw bywyd, cymdeithas drefnus, addoli Duw, atgenhedlu ac addysg (CCAAA).
10. Trwy rinwedd phronesis neu ddoethineb ymarferol gallwn gymhwyso'r pum daioni sylfaenol hyn mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae hyn yn rhoi inni reolau eilradd. Ond gall y rhain newid wrth inni fyfyrio ynghylch sut i gyflawni ein gwir bwrpas.

© WJEC CBAC LTD

11. Mae arnom eisiau gwneud daioni ond weithiau byddwn yn cyfeiliorni. Pan gyfeiliornwn, rydym yn dilyn daioni ymddangosiadol, oherwydd mae'n amhosibl ein bod yn gwneud drygioni yn fwriadol. Gallwn yn rhesymol ddewis "rhyw agwedd ar ddaioni", e.e. gallwn fwyta teisen am ei bod yn flasus (beth sydd o'i le ar hynny?) heb gofio ei bod yn achosi tewdra (ac felly'n ddrwg).
12. I berffeithio ein natur mae angen rhinweddau cyfiawnder, cymedroldeb, gwroldeb a phwyll, a rhinweddau diwinyddol ffydd, gobaith a chariad.

## Y cyd-destun hanesyddol: Aristotlys a'r achos terfynol

Roedd barn y Groegwyr am y byd yn un *deleolegol* yn yr ystyr bod diben neu *telos* i bopeth.  Mae Aristotlys yn agor ei *Foeseg Nichomacheaidd* trwy ddadlau:

> *"Credir bod pob celfyddyd a phob ymchwiliad, pob gweithred a phob gweithgaredd, yn anelu at ryw ddaioni: ac am y rheswm hwn datganwyd yn gyfiawn mai'r daioni yw'r hyn y mae pob peth yn anelu ato".*

Ar y darlleniad cyntaf mae hon yn ymddangos yn ddadl ryfedd. Os wyf fi'n anelu at wneud arian mawr, neu at gael perthynas rywiol gyda llawer o wahanol bobl, mae'r pethau hyn yn amlwg yn amcanion rhesymol i lawer o bobl heddiw, ond a ydyn nhw'n *dda*?  Onid yw Aristotlys yn rhagdybio'r union gwestiwn y mae'n ceisio'i ateb (sef, beth yn union y *dylem* ni anelu ato)? Dewch inni archwilio'i syniadau'n fanylach:

- Mae i bob planhigyn neu anifail *bwrpas* neilltuol ac rydym i gyd yn gydgysylltiedig (yng ngeiriau'r Lion King) "yng nghylch mawr bywyd".  Mae gwenyn yn peillio blodau; mae pysgod yn fwyd i bysgod eraill; mae anifeiliaid yn ddibynnol am eu heinioes ar ei gilydd; a bodau dynol?
- Mae i fodau dynol botensial arbennig: i ddefnyddio'u *rheswm* (**phronesis** neu ddoethineb ymarferol) i *flodeuo*. Trwy broses o arsylwi ar y byd naturiol gall bodau dynol *ddeall* cyfansoddiad y byd a'r ffordd y mae'n gweithio, ond deall hefyd beth mae "y daioni" yn ei olygu.
- Y mae yna nod terfynol, sef blodeuo neu hapusrwydd, trosiad o'r gair Groegaidd **Eudaimonia**. Mae'r gair hwn yn ymhlygu proses organig o dwf cymeriad sy'n parhau drwy gydol ein hoes. Mae'n syniad gwahanol iawn i'r cysyniad seciwlar o

hapusrwydd heddiw. Mae *cymeriad* yn dyngedfennol i ddarganfod y nod, neu'r telos, hwn. Wrth ffurfio cymeriad mae angen canolbwyntio ar y *rhinweddau* ac yn enwedig y *cymedr* rhwng y pechod o ddiffyg (y pethau hynny sy'n ein rhwystro rhag cyflawni ein potensial) a'r pechod o *ormodedd*. Y cymedr pwyllog hwn yw'r allwedd i'r bywyd moesol (felly mae dewrder yn rhinwedd cymedrig rhwng llwfrdra a rhyfyg).

Felly mae Aristotlys yn rhestru gweithgareddau, a gallwn nodi *daioni canolraddol*, a *daioni terfynol*.  Mae hyn yn adlewyrchu barn Aristotlys fod yna achos gweithredol a therfynol: mae arlunydd yn gweithio ar ei waith (*achos gweithredol*), er mwyn creu darlun (*achos terfynol*).

Cymerer y weithred rywiol, er enghraifft. Gyda rhyw, mae'r achos gweithredol yn ddatganiad o ffaith neu'n ddisgrifiad. Os gofynnwn pam y mae pobl yn cael rhyw, gallem siarad am atyniad corfforol, anghenion seicolegol neu bleserau'r corff. Mater o fwriad yw'r achos neu'r diben terfynol – beth oedd pwrpas Duw y tu ôl i ryw? Mae'r achos terfynol yn tybio bod meddwl rhesymol y tu ôl i'r cread, ac yn hynny o beth mae'n symud oddi wrth foeseg ddisgrifiadol (sy'n dweud beth sydd yno) at foeseg normadol (datganiadau ynghylch beth ddylai neu na ddylai fod). Mae Tomos o Acwin yn galw'r achosion (neu ddibenion neu nodau) terfynol hyn yn wrthrychau'r ewyllys (sef nodau'r ewyllys).

Cymerwn enghraifft y milwr sy'n saethu rhywun. A oedd yn "gywir ei ergyd"? Mae'r achos gweithredol yn ymdrin â'r set o ddigwyddiadau o gwmpas y saethu – a anelodd yn dda, a oedd yr ergyd yn gywir, a laddwyd y targed? Pwyntiau disgrifiadol yw'r rhain, ac yn amlwg nid ydynt yn dweud dim wrthym am foesoldeb y saethu. Pan edrychwn i mewn i'r maes hwn – a oedd yn iawn lladd? – rydym yn pwyso a mesur ei fwriad, ac yn holi ynghylch yr achos terfynol, diben neu nod y weithred. Wedyn gallwn ystyried a yw'r amcan hwnnw'n gyson â chynllun Duw ar gyfer bodau dynol. Gallwn benderfynu bod lladd pobl ddiniwed yn mynd yn groes i gynllun Duw ar ein cyfer, felly mae bob  amser yn ddrwg lladd pobl ddiniwed, neu, mewn adeg o ryfel neu am resymau hunanamddiffynol, bod cyfiawnhad dros ladd. Dyma pam y dywed Ralph McInery yn ei gyflwyniad i Tomos o Acwin:

> *"Y ffaith fod y nod terfynol ymhlyg ym mhob gweithred ddynol sy'n galluogi Tomos i honni bod deddf naturiol yn ddilys i bob dyn ar bob adeg" Ralph McInery*

© WJEC CBAC LTD

Ond yma, deuwn wyneb yn wyneb â phroblem: gallai pawb ohonom anghytuno nid dim ond yn y rhestr o weithgareddau sy'n arwain at y daioni terfynol ond hefyd ynghylch beth y gallai'r daioni *canolraddol* fod. Gyda'r weithred rywiol, er enghraifft, ai atgenhedlu yw ei daioni terfynol (ei nod), ynteu ai creu perthynas, ynteu ai'r ddau?

Ac mae yna ail broblem: dim ond am fod pob ffordd yn dod i ben yn rhywle (mae pen draw i bob gweithgaredd), nid yw'n dilyn bod pob ffordd yn dod i ben yn yr un lle (nid pob gweithgaredd sy'n arwain at achosi inni flodeuo fel bodau dynol). O'i roi mewn ffordd arall, gellir cael rhyw da a rhyw drwg (hyd yn oed os mai babi yw'r nod; gall rhyw fod yn ecsbloetiol, neu'n dreisiol neu'n hunanol).

## Tomos o Acwin a'r Ddeddf Naturiol

- Mae Duw yn ei **ragluniaeth** wedi'n cynllunio ni (a phopeth) mewn ffordd arbennig. Mae trefn resymol ac mae gwerthoedd a dibenion wedi'u hymgorffori yn natur hanfodol pethau. "*Ein nod terfynol yw daioni diberthynas, sef Duw, yr unig un a all lenwi ein hewyllys i'r ymylon oherwydd daioni anfeidrol*" (Tomos o Acwin).
- *"A derbyn y rheolir y byd drwy ragluniaeth ddwyfol… y llywodraethir cymuned gyfan y bydysawd gan reswm dwyfol … mae natur deddf i'r syniad ei hun o lywodraethiant pethau yn Nuw Rheolwr y Bydysawd. A chan nad yw syniad y rheswm dwyfol am bethau yn amodol ar amser, ond ei fod yn dragwyddol... felly rhaid galw'r math hwn o ddeddf yn dragwyddol... canys mae wedi'i ordeinio gan Dduw i lywodraethiant pethau a oedd yn rhagwybyddus ganddo". Tomos o Acwin*

## Y man cychwyn: egwyddor synderesis

Fel man cychwyn mae Tomos o Acwin yn cymryd gwirionedd hunanamlwg, sef bod bodau dynol o ran natur yn awyddus i wneud daioni ac osgoi drygioni. Egwyddor synderesis yw'r enw a roddir i hyn (mae'n well gair amdano na 'rheol'). Tybir bod y gair synderesis yn llygriad o'r gair Groegaidd *syneidesis* sef 'gwybodaeth oddi mewn' neu 'wybodaeth ynghyd'. Yn syniadaeth Tomos mae'n un o ddau air y mae'n eu defnyddio am gydwybod, ac iddo'r ystyr "cydwybod gynhenid".

Sylwer nad yw Tomos yn profi hyn yn gymaint â'i dybio. Bydd awduron Protestannaidd fel Niebuhr yn beirniadu Tomos ar y cam cyntaf hwn, gan ddadlau

bod bodau dynol o ran eu natur yn bechadurus, nid yn dda, a bod angen eu gwaredu gan Grist. Mae'r ddadl yn diraddio Crist, yn ôl Niebuhr. Yn yr Unol Daleithiau mae Datganiad Manhattan gan Gristnogion Efengylaidd yn cyhoeddi: "mae'r ddeddf naturiol yn anghofio pechod ac felly'n dibrisio'r angen am Grist a goruchafiaeth yr Ysgrythur":

"Arfer naturiol" yw synderesis yn ôl Tomos o Acwin.

Daioni, medd Tomos, yw'r peth cyntaf y mae rheswm ymarferol yn cydio ynddo "gan fod pob corff yn gweithredu i ddiben dan ryw agwedd ar ddaioni". Bydd cyrff rhesymol yn dilyn y daioni'n naturiol, am mai dyna sut y'n cynlluniwyd ni gan Dduw. Mae hyn yn caniatáu i Tomos ddod i'r casgliad fod "beth bynnag y mae rheswm ymarferol yn ei ddeall fel daioni (neu ddrygioni) dyn yn perthyn i reolau'r ddeddf naturiol fel rhywbeth i'w wneud neu ei osgoi".

Gellir gweld synderesis hefyd fel gair arall am gydwybod – y rhan gynhenid y cawsom ein geni â hi. Synderesis yw'r duedd gyffredinol, gynhenid (greddfol) i geisio dibenion da, tuedd a roddwyd gan Dduw. Wrth gwrs, mae Tomos yn cydnabod bod pobl weithiau'n methu dilyn dibenion da, ond mae'r duedd waelodol yn angenrheidiol os ydym am addef bod daioni'n rhywbeth naturiol i fodau dynol fel cyrff moesol rhesymol.

## Rheolau cynradd yn deillio o dueddiadau naturiol

Gellir mynegi deilliant rheolau cynradd Tomos o Acwin ar ffurf diagram.

**SYNDERESIS ————> TUEDDIADAU————— > RHEOLAU CYNRADD**

Corff rhesymol yw dyn sy'n ceisio dibenion a fydd yn perffeithio ei natur. Felly egwyddor synderesis yw'r man cychwyn: gwneud daioni ac osgoi drygioni. Mae tri math o ddibenion gan ddyn, medd Tomos o Acwin, y gallwn eu cyfuno dan yr acronym CCAAA (cadw bywyd, cymdeithas drefnus, addoli Duw, addysg ac atgenhedlu).

1. Y rhai a rannwn gyda'r holl greadigaeth (yr awydd i gadw ein bywyd).
2. Y rhai a rannwn gydag anifeiliaid (atgenhedlu ac addysgu ein hepil).
3. Y rhai sy'n unigryw i fodau dynol (byw mewn cymdeithas ac addoli Duw).

Ond nid yw'r tueddiadau ond yn dda cyn belled â'u bod yn ddarostyngedig i reswm; mae angen eu dynoleiddio, eu gwneud yn foesol, eu dilyn â phenderfyniad, craffter, cyfrifoldeb. Felly mae'r rheolau cynradd yn rhoi dibenion cyffredinol inni y mae angen i ni eu cymhwyso i'n hamgylchiadau yn y byd go iawn gan ddefnyddio rhinwedd doethineb ymarferol, er mwyn i ni (a chymdeithas) allu blodeuo a thyfu. Trwy reswm, cyfunwn yr awydd cyffredinol i wneud daioni (synderesis) â'r tueddiadau naturiol a feddwn ac a brofwn fel bodau dynol. Ac wedyn fe'u mesurwn yn erbyn deddf dragwyddol Duw, y mesur o ddaioni gwrthrychol a ddatguddir hefyd yn y byd naturiol.

## Nid yw'r Ddeddf Naturiol lawn mor ddigyfnewid ag y tybiwch

Er y gall ymddangos bod y Ddeddf Naturiol yn absoliwt, nid yw o reidrwydd yn ddigyfnewid, a hynny oherwydd bod ein rhesymoledd wrthi o hyd yn archwilio'r byd a natur, a gall ein canfyddiadau arwain at ddatblygu'r ddeddf naturiol. Wedi'r cyfan, ni ddatguddiodd Duw ei feddyliau i gyd (er enghraifft ar gynllun y bydysawd) inni ar un waith. Nid yw dweud bod y byd naturiol yn "dda" yn ymhlygu ein bod yn gwybod popeth am y byd hwn... hyd yma. Gall bodau dynol wneud:

- **Camgymeriad wrth resymu neu arsylwi**
- **Gall y cyflwr dynol newid**, er enghraifft, teimlai Tomos ei hun y gellid dan rai amgylchiadau ganiatáu *amlwreiciaeth* (cael mwy nag un wraig).

Mae damcaniaethwyr Deddf Naturiol modern wedi llunio rhestri o ddibenion cynradd sydd ychydig yn wahanol i restr Tomos o Acwin. Mae Grisez (1973) yn ychwanegu hunan-integreiddiad, dilysrwydd, chwarëusrwydd a gwerthfawrogiad o harddwch, ac mae Finnis (1980 neu 1996) yn newid "atgenhedlu" i "daioni priodasol" a all olygu cael hwyl gyda'ch cymar rhywiol.

## Daioni gwirioneddol ac ymddangosiadol

Fel Aristotlys, nid oedd Tomos o Acwin yn credu y gallai bod dynol wneud drygioni'n fwriadol. Credai Tomos fod pobl yn dewis naill ai ddaioni gwirioneddol neu ddaioni ymddangosiadol. Rhywbeth sy'n dda yn ôl y ddeddf naturiol (daioni wedi'i resymu'n gywir sy'n helpu'r corff moesol i gyflawni ei telos) yw daioni gwirioneddol. Camgymeriad yw daioni ymddangosiadol, ac mae'n lleihau natur ddynol rhywun (daioni wedi'i resymu'n anghywir nad yw'n helpu'r corff moesol i gyflawni'r pwrpas a

roddwyd iddo gan Dduw). Roedd arnoch eisiau gwneud daioni ond yn y diwedd ni wnaethoch felly.

Caiff rhai eu harwain ar gyfeiliorn gan nwydau, eraill gan ffug resymu, ond maent i gyd yn credu eu bod yn dilyn y daioni. “Ffurfioldeb daioni” yw canlyniad rhesymegol bod pawb yn credu eu bod yn mynd am y gorau (er bod rhai’n camgymryd). Yn y modd hwn, er na fydd pobl efallai’n gwneud drygioni’n fwriadol, gallant geisio daioni ymddangosiadol ac felly fod yn euog o bechod neu o “ewyllys drwg”, oherwydd yn y pen draw ceir moesoldeb wrthrychol a roddir gan y ddeddf naturiol.

- Gweithredu yn groes i reswm yw pechod. Dywed Tomos y gall bodau dynol wneud dewisiadau moesol bwriadol drwy ddefnyddio’u hewyllys a’u rheswm. Gweithredoedd dynol yw’r enw y mae’n ei roi ar y rhain. Rhaid defnyddio rheswm dynol yn gywir, a galwodd hyn yn defnyddio rheswm yn iawn. Er bod gwahaniaethau barn dilys ynglŷn â’r hyn sydd yn iawn, os defnyddiwn ein rheswm yn gywir i benderfynu beth sydd yn iawn, ac wedyn ein hewyllys i wneud hynny, byddwn wedi cyflawni dewis rhydd.
- Gwahaniaethai Tomos rhwng gweithredoedd mewnol (bwriad y corff moesol wrth gyflawni gweithred) a gweithredoedd allanol (gweithredoedd y corff moesol). Gallwch gyflawni gweithred dda fel rhoi i elusen, ond am y rhesymau anghywir, fel i gael canmoliaeth. Mae’r cymhelliad yn bwysig.
- Mae’r ewyllys yn anelu tuag at nod terfynol, ac i Gristnogion, Duw yw’r nod hwnnw (i Aristotlys, *Eudaimonia* neu flodeuo yw’r nod). Dim ond yng ngwynfyd nefoedd y ceir hapusrwydd terfynol. Nid yw pwrpas bywyd wedi’i gyfyngu i’r hyn sy’n digwydd i Gristion wedi marwolaeth, gan fod gan bobl bwrpas yn y bywyd hwn i ddefnyddio’u doniau a’u galluoedd.

## Eglwys Gatholig Rhufain a’r Ddeddf Naturiol

Mae diwinyddion Catholig yn dal i ddadlau mai moesoldeb rheswm yw’r Ddeddf Naturiol, yn seiliedig ar y Beibl a’n dealltwriaeth ni o’r byd naturiol, y gellir ei deall gan bawb rhesymol boent yn credu yn Nuw ai peidio.

Dehonglir y Ddeddf Naturiol hon gan y Magisterium, y Pab a’r Cardinaliaid yn cydgyfarfod am ddadl resymol sy’n arwain at gyhoeddi eu meddwl yng Nghylchlythyrau’r Pab, fel *Humanae Vitae* (1968) neu *Veritatis Splendor* (1995). Yn yr arfer hwn honnant eu bod yn dilyn yn ôl traed Pedr a’r apostolion cyntaf, a

benodwyd yn warchodwyr a dehonglwyr y ddeddf ddwyfol (h.y. y Beibl) a'r ddeddf foesol naturiol.

Gan ddilyn Tomos o Acwin a Sant Paul, y farn Gatholig yw bod ein rheswm a'n nwydau'n gwrthdaro (gw. Rhufeiniaid 7). Mae angen arfer dewisiadau moesol cyfrifol er mwyn dilyn y drefn foesol wrthrychol a sefydlwyd gan Dduw. O ran perthynas rywiol, mynegir y farn Gatholig yn dda yn y dyfyniad hwn o *Humanae Vitae*.

> *"Rhaid i bob gweithred briodasol o reidrwydd gadw ei pherthynas hanfodol ag atgenhedlu bywyd dynol... mae hyn yn ganlyniad i ddeddfau a ysgrifennwyd i mewn i wir natur dyn a menyw... mae ein cyfoedion yn arbennig o alluog i weld bod yr athrawiaeth hon mewn cytgord â rheswm dynol... nid yw byth yn gyfreithlon, hyd yn oed am y rhesymau mwyaf difrifol, i wneud drygioni fel y gall daioni ddeillio ohono".*

Ynglŷn â defnyddio dulliau atal genhedlu, dadleua *Humanae Vitae* fod rhaid ystyried "pa mor hawdd y gallai'r ffordd hon o weithredu agor y drws i anffyddlondeb priodasol a gostyngiad cyffredinol mewn safonau moesol. Gall dyn anghofio'r parch sy'n ddyledus i fenyw... a'i darostwng i fod yn ddim ond offeryn er boddhau ei chwantau ef ei hun".

Sylwer ar y modd y mae *Humanae Vitae* yn llithro i mewn i ganlyniadaeth. Ond wrth restru canlyniadau amlgymharaeth, hunanoldeb, a gostyngiad safonau moesol, mae'r ddogfen yn hepgor canlyniadau gorboblogi, afiechydon a drosglwyddir yn rhywiol, rhwystredigaeth rhywiol ac anallu menywod i gymryd rheolaeth dros eu tynged (ac yn wir eu cyrff) eu hunain.

Gellid gweld y rhain i gyd fel canlyniadau gwael i safbwynt honedig resymol yr eglwys Gatholig ar y Ddeddf Naturiol.

## Gwerthuso

Beth wnawn ni o'r ddamcaniaeth hon sydd wedi bod mor ddylanwadol o ran ffurfio'r meddwl modern ar faterion moesegol?

- Dadleuodd Niebuhr (1940) fod damcaniaeth y Ddeddf Naturiol yn anfeirniadol o'i chaethiwed diwylliannol. Mae syniad Tomos o Acwin o gyfiawnder, er enghraifft, "yn llawn manylion penodol a dynnwyd o realitioedd trefn ffiwdal... "rhesymoliadau" ydynt o safle cymdeithasol trech pendefigaeth ffiwdal".

- Gwna McGrath (2001) bwynt cysylltiedig, sef os seiliwn ddamcaniaeth ar arsylwi ni allwn osgoi'r broblem ein bod yn gweld yr hyn yr ydym wedi'n cyflyru i'w weld (neu eisiau ei weld). "Ymhell o fod yn "ffaith", mae'r syniad o 'natur' wedi'i ffurfio gan ragdybiaethau'r arsylwr. Nid 'arsylwi' natur a wneir; ond ei hadeiladu".

- Mae syniad y Ddeddf Naturiol fel petai'n gyrru hollt rhwng rheswm a theimlad. Mae seiciatreg fodern yn ein rhybuddio rhag gwneud hyn: mae angen cyfannu rheswm a theimladau a bod yn agored ynghylch yr hyn a deimlwn mewn gwirionedd (hyd yn oed os yw efallai'n ymddangos yn ddrwg neu'n achosi inni deimlo euogrwydd).

- Mae Tomos o Acwin fel pe bai'n awgrymu bod un natur ddynol osodedig. Nid yw hyn yn newid rhwng pobloedd na thros amser. Os felly, yna mae cyfunrywioldeb yn 'anhwylder' ac yn rhywbeth i'w drin. Ond beth os yw'r natur ddynol ei hun yn datblygu ac yn newid (er enghraifft, wrth i'r bydolwg gwyddonol beri ein bod yn llai ofnus o bresennol annirnad neu ddyfodol ofnadwy), neu beth os yw cyfunrywioldeb yn nodwedd enetig ac felly'n hollol naturiol?

- Os yw'r syniadaeth am Ddeddf Naturiol mor rhesymol pam nad oes mwy ohonom yn ei derbyn? Mae hyd yn oed Gatholigion yn arfer dulliau atal cenhedlu ac yn cael erthyliadau. Onid yw'n gwbl rhesymol (fel y gwna Humanae Vitae ei hun) edrych ar ganlyniadau a holi ai da ai drwg ydyn nhw? Wrth ofyn y cwestiwn onid ydym yn awgrymu nad yw daioni a drygioni'n rhywbeth cynhenid i'r peth ei hun, ond ei fod yn gorwedd yn ei gyd-destun, yn rhywbeth anghynhenid (fel y pleser a gynhyrchir, y berthynas a ffurfir ac a atgyfnerthir, ayb.)?

© WJEC CBAC LTD

- A ydyw damcaniaeth y Ddeddf Naturiol yn ddibynnol yn y pen draw ar dderbyn bodolaeth Duw? Yn sicr roedd Tomos o Acwin fel petai'n meddwl hynny, achos fe dreuliodd lawer o amser drwy ei bum ffordd yn ceisio sefydlu ei bod yn rhesymol credu yn Nuw.

  Nid yw'n ymddangos bod y modd y mae'r Eglwys Gatholig yn dehongli'r Ddeddf Naturiol yn gosod gwerth uchel ar **reswm dynol** achos mae'n crynhoi grym yn nwylo ychydig o ddynion oedrannus a diwair. Oni ddylai'r ddadl ymestyn yn ehangach (hynny yw, os derbyniwn y pwynt cychwynnol mai rheswm yw'r allwedd)?

Ond beth os penderfynwn i'r gwrthwyneb, am resymau Deddf Naturiol, sef bod y ffordd y mae'r byd wedi'i drefnu (gyda daeargrynfeydd, tswnamis, firysau, ac ati) yn awgrymu hap a damwain yn hytrach na chynllun?

A ydyw hyn yn achosi i'r Ddeddf Naturiol gwympo ar ei thybiaeth gyntaf?